



**COLEG
CAMBRIA**

POLISI PLANT SY'N DERBYN GOFAL A RHAI SY'N GADAEI GOFAL

Enw'r Polisi:	Polisi Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal
Dyddiad cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb	Tachwedd 2019
Cyflwynwyd i'w gymeradwyo:	Tachwedd 2019
Cymeradwywyd gan:	Grŵp Diogelu
Dyddiad cymeradwyo:	Tachwedd 2019
Dyddiad Adolygu:	Tachwedd 2022
Awdur:	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr

Cyflwyniad / Datganiad Polisi

Mae Coleg Cambria yn ymroddedig i ddarparu addysg safonol i bob un o'i fyfyrwyr. Mae'r ymrwymiad i 'Blant sy'n Derbyn Gofal' (LAC) a Phlant sy'n 'Gadael Gofal' yn cael ei arwain gan y ddeddfwriaeth gyffredinol ac arweiniad cyfredol gan yr Adran Addysg.

Pwrpas

Darparu cymorth ac arweiniad i staff ar sut i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal mewn cydweithrediad ag awdurdodau addysg lleol a thimau LAC a Gadael Gofal.

Risg

Methu cefnogi plant sy'n derbyn gofal – sicrhau ein bod yn lleihau nifer yr ymadawyr cynnar.

Diffiniadau

Mae LAC yn cyfeirio at bobl ifanc a allai fod yn:

1. Cael eu Lletya

Sefydliar trefniant gwirfoddol oherwydd bod y rhiant/rhieni ar goll neu'n methu ymdopi oherwydd salwch. Gall y trefniant hefyd fod yn rhan o gynllun amddiffyn plentyn a drafodwyd gyda'r teulu. Yn yr amgylchiadau hyn, y rhiant/rhieni sy'n cadw cyfrifoldeb rhiant.

2. Mewn Gofal

Dim ond os bydd Llys wedi gwneud Gorchymyn Gofal y bydd plentyn ifanc yn cael ei roi 'mewn gofal'. Gellir cyhoeddi gorchymyn os credir bod yr unigolyn ifanc yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Fel rheol, bydd gorchymyn gofal yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r awdurdod lleol ond gellir hefyd ei rannu gyda'r rhieni.

3. Ar remand/yn y ddalfa

Gall unigolyn ifanc fod ar remand neu yn y ddalfa:

- os cyhoeddwyd gorchymyn amddiffyn brys;
- os yw'r unigolyn wedi ei gymryd o'r cartref wrth i'r heddlu ddefnyddio eu grymoedd amddiffyn;
- gan lys yn dilyn cyhuddiad cyfreithiol;
- gan lys yn gorchymyn Adran Gwasanaethau Plant i letya plentyn sydd eisoes yn destun gorchymyn goruchwyllo oherwydd ymddygiad troseddol. Gall y cyfnod gweithredu fod hyd at chwe mis.

Mae Gadael Gofal yn cyfeirio at bobl ifanc sy'n gadael y system gofal ac sy'n cael eu cefnogi trwy lety â chymorth neu drwy fyw'n annibynnol.

Gall pobl ifanc LAC neu Rai sy'n Gadael Gofal fod ag un neu ragor o'r heriau canlynol:

- hunanwerth isel
- safonau addysgol isel oherwydd absenoldeb o'r coleg
- perygl o bresenoldeb gwael a gadael y cwrs yn gynnar
- oedi mewn datblygiad cymdeithasol/emosiynol/gwybyddol
- cael eu bwlio neu eu bod wedi bwlio eraill
- materion iechyd meddwl
- ychydig o ffrindiau neu ymdeimlad o unigedd
- materion ymddygiadol
- cysylltiad gwael gydag eraill

Mae hyn yn eu gwneud yn grŵp hynod o fregus o ran gwireddu eu potensial addysgol a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol.

Polisi

Pan fydd myfyriwr wedi ei nodi yn Blentyn sy'n Derbynn Gofal (LAC) neu'n Berson Ifanc sy'n Gadael Gofal (LC), bydd y Tîm Diogelu'n gweithio gyda'r Ddirprwy Gyfarwyddwr perthnasol i sicrhau:

- Bod Cynghorydd Gwasanaethau Myfyrwyr neu aelod arall priodol o'r staff yn cael ei bennu fel Mentor i fonitro cynnydd yn wythnosol a chynnig cefnogaeth ar adegau allweddol. Gall hefyd fod yn briodol cynnwys Anogwr Dysgu'r maes y mae'r unigolyn ifanc yn astudio ynddo. Os nad oes angen ymyriad, bydd y Cynghorydd yn cyfarfod â'r unigolyn ifanc yn rheolaidd i sicrhau y cyflawnir canlyniad cadarnhaol.
- Llunio Cynllun Addysg Personol (PEP) cadarn;
- Dim ond ar sail "yr angen i wybod" y rhennir gwybodaeth am y LAC neu'r LC gyda staff a bod gan yr holl staff hynny yn deall yn briodol y materion sy'n effeithio ar y LAC neu'r LC a'r angen am gyfrinachedd.

Cyfrifoldebau

Bydd y Swyddog Diogelu yn sicrhau bod aelod o'r tîm yn:

- eiriolwr dros y LAC neu'r LC;
- sicrhau cyflwyniad rhwydd i'r LAC neu'r LC a gofalwr/wyr, a bydd yn nodi gofynion penodol, gan gynnwys statws gofal;
- sicrhau bod PEP wedi ei lunio o fewn 20 diwrnod o dderbyn y plentyn i ofal neu gofrestru yn y coleg;
- sicrhau bod y PEP a chofnodion eraill yn cael eu diweddarau;
- cydlynu cymorth i'r plentyn yn y coleg a chysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill a gofalwyr;
- sicrhau bod staff yn cael y wybodaeth a'r hyfforddiant perthnasol;
- darparu gwybodaeth ysgrifenedig i gynorthwyo gyda chyfarfodydd cynllunio neu adolygu a sicrhau presenoldeb cyn belled â phosibl;
- sicrhau bod y person ifanc a'r gofalwr/gofalwyr yn cael gwybod yn gynnar am gyfarfodydd coleg e.e. nosweithiau rhieni;
- sicrhau bod y LAC neu'r LC yn cael gwybod am weithgareddau allgyrsiol a dysgu y tu hwnt i oriau arferol, a'i fod yn cael ei annog i fynd iddynt;
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo'n briodol rhwng unigolion, asiantaethau perthnasol a cholegau eraill;
- ceisio cynnal cyfarfodydd gyda phartïon perthnasol pan fydd y plentyn yn cael anawsterau, yn enwedig os oes perygl y bydd yn cael ei wahardd;
- sefydlu 'tîm' gyda phartïon priodol i sicrhau bod y person ifanc yn cael profiad cadarnhaol a fydd yn arwain at gymwysterau, cyflawni a dilyniant. Bydd y 'tîm' hwn yn cynnwys y Cydlynnydd Cymorth Ychwanegol, Yr Anogwr Bugeilio / Twtor Personol ac unrhyw asiantaeth allanol sy'n gysylltiedig â'r person ifanc;
- sicrhau os yw'r LAC neu'r LC "Mewn Perygl" o adael y cwrs yn gynnar oherwydd presenoldeb neu ymddygiad gwael, y byddant yn cael cymorth gan Gynghorydd Gwasanaethau Myfyrwyr mewn cyfarfodydd gyda'r Twtor neu Ddirprwy Gyfarwyddwr i drafod problemau;
- sicrhau bod y dogfennau sy'n ymwneud â'r LAC neu'r LC yn cael eu cwblhau a'u dychwelyd yn brydlon i'r awdurdod goruchwyliol;

- darparu adroddiadau'n flynyddol i Grŵp Diogelu'r Coleg;
- adolygu gweithredu'r polisi hwn yn effeithiol bob blwyddyn, neu ar unwaith yn sgil canllawiau a/neu ddeddfwriaeth newydd.

Cyfathrebu a Dwyieithrwydd

Bydd y Polisi hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

I'w gwblhau ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Y Broses Ymgynghori

Y Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant
Grŵp Strategol Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru)

Oes y Ddogfen

Adolygir y polisi bob 3 blynedd

Cynllun Gweithredu

Yr Aelod Staff Dynodedig fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn cael cyfarwyddyd am y rheoliadau a'r arferion yr amlinellir yn y polisi hwn.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Safonau

Adran 95 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyfeiriadau

Adran 95 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Hyrwyddo Cyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal 2018 DofE